

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Mercher, 13 Mawrth 2024

**YN BRESENNOL (Yn y Siambr):** Y Cynghorydd Palmer (Chair)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

S. Churchman, M. Lewis, P. Lewis, M. Norris, C. Weaver, E. Williams, a N. Yeowell

O. Richards – Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun (Aelod Cyfetholedig heb bleidlais) (Yn rhithwir)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):**

C. Moore – Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (CSC)

L. Rees-Jones – Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (CSC) (Rhithwir)

C. Lee – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Dinas Caerdydd)

J. Dong – Dirprwy Swyddog Adran 151/Prif Swyddog Cyllid (Cyngor Dinas a Sir Abertawe)

J. Thomas – Swyddog Adran 151 (Cyngor Sir Penfro)

D. Morgan - Pennaeth Cyllid (Cyngor Sir Gwynedd)

P. Griffiths - Cyfarwyddwr Cyllid a Gwella (RhCT)

D. Fielder – Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)

A. Bull – Pennaeth Pensiynau (TCC)

A. Parnell – Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddi Pensiynau (Cyngor Sir Caerfyrddin)

T. Williams – Uwch-swyddog y Gwasanaethau Ariannol (CSC)

K. Evans – Swyddog y Gwasanaethau Democraataidd Cynorthwyol (CSC) [Cymryd Nodiadau]

E. Williams – Cyfieithydd ar y pryd (Cyngor Sir Penfro)

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol (Yn rhithwir):**

C. Flynn – Dirprwy Bennaeth Cyllid - Cyllid Strategol (Cyngor Sir Penfro)

P. Latham – Pennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)

M. Falconer – Rheolwr Pensiwn (Dinas Caerdydd)

**Hefyd yn bresennol i gyflwyno adroddiadau (Yn y Siambr):**

A. Johnston - Hymans Robertson

R. Barrack – Hymans Robertson

K. Midl – Waystone Management

J. Zealander – Waystone Management

R. Thornton – Waystone Management

A. Knell – Robeco

K. Robertson – Robeco

J. Brown - Russell Investments

A. Quinn – Russell Investments

F. Fox-Andrews - GCM Grosvenor

R. Parekh GCM Grosvenor



## Hefyd yn bresennol i gyflwyno adroddiadau (Yn rhithwir):

D. Armstrong – Northern Trust (eitem 16 yn unig)

L. Bailey – Northern Trust (eitem 16 yn unig)

## Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion (Yn y Siambr):

D. Jones-Thomas – Rheolwr Buddsoddi (Cyngor Sir Gwynedd)

K. Cobb – Uwch-gyfrifydd (C&CS)

I. Hughes – Swyddog Buddsoddiadau Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)

Y. Keitch – Prif Gyfrifydd (RhCT)

C. Hurst - Rheolwr Cronfa Bensiwn (Cyngor Sir Penfro)

## Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion (Yn rhithwir):

I. Guy - Cynrychiolydd Aelodau o'r Cynllun (Wrth gefn)

## Neuadd y Sir, - Llandrindod Wells, Powys ac o bell - 2.01pm - 4.36 pm

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelod	Rhif yr Eitem ar yr Agenda	Buddiant
Y Cynghorydd M. Lewis	Pob eitem ar yr agenda	Ef a'i wraig yn aelodau o Gronfa Bensiwn Abertawe.
Y Cynghorydd S. Churchman	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd
Y Cynghorydd P. Lewis	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Powys
Y Cynghorydd N. Yeowell	Pob eitem ar yr agenda	Aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf
Y Cynghorydd M. Norris	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd T. Palmer	Pob eitem ar yr agenda	Ef, ei bartner a'i ferch yn aelodau o Gronfa Bensiwn Clwyd
Y Cynghorydd E. Williams	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed
Y Cynghorydd C. Weaver	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro

[Sylwer: Ceir eithriad yn y Côt Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n caniatáu i aelod a benodwyd neu a enwebwyd gan ei Awdurdod i gorff perthnasol ddatgan y buddiant hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.]



### 3. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR Y 13 RHAGFYR 2023

**PENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu oedd wedi'i gynnal ar 13 Rhagfyr, 2023 gan eu bod yn gywir.

### 4. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN YR AWDURDOD LLETYA

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariad cynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Llywodraethu;
- Sefydlu parhaus;
- Gwasanaethau gweithredwyr;
- Cyfathrebu ac adrodd;
- ☐- Hyfforddiant a chyfarfodydd;
- ☐☐☐☐☐- Adnoddau, cyllideb a ffioedd.

Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Pwyllgor fod cofnod presenoldeb ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer pob sesiwn hyfforddi a ddarparwyd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fod diweddariad yr Awdurdod Cynnal yn cael ei dderbyn.

### 5. CYNLLUN HYFFORDDIANT PPC - 2024/25

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor y Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2024/25. Dywedwyd wrth y cyfarfod y lluniwyd cynllun hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru i ategu hyfforddiant presennol yr Awdurdod Cyfansoddol a bydd yn berthnasol i weithgareddau Partneriaeth Pensiwn Cymru o ran cyfuno cronfeydd. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiwallu anghenion hyfforddi aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, ond gellid hefyd ddiwallu anghenion aelodau'r Pwyllgor Pensiwn yn ogystal â chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiwn, os yw'n berthnasol.

Cynhelir sesiynau hyfforddiant 2024/2025 bob chwarter a byddant yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Gwybodaeth am gynnyrch a Seiberddiogelwch
- Polisiâu



- Buddsoddi Cyfrifol
- Dealltwriaeth o'r Farchnad a Gofynion Rheoleiddio

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad ar gynllun hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru 2024/25.**

**6. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2024 - 2027**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes 2024-2027. Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod fod y Cynllun Busnes wedi'i ddrafftio yn unol ag Adran 6 o'r Cytundeb rhwng Awdurdodau. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor, byddai'r Cynllun Busnes yn cael ei anfon at bob Awdurdod Cyfansoddol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig.

Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor mai pwrpas y cynllun busnes oedd:

- Egluro cefndir a strwythur llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion Partneriaeth Pensiwn Cymru dros y tair blynedd nesaf
- Cyflwyno polisïau a chynlluniau Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes perthnasol
- Crynhoi Buddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad Partneriaeth Pensiwn Cymru

Bydd y cynllun yn cael ei fonitro'n gyson a bydd yn cael ei adolygu a'i gytuno arno yn ffurfiol yn flynyddol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid cytuno ar y Cynllun Busnes a'i anfon at bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig.**

**7. ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 1 2024**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Adolygiad Cofrestr Risg Ch1 2024. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai pwrpas Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru yw:



- Amlinellu risgiau allweddol Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r ffactorau a allai gyfyngu ar ei gallu i fodloni ei hamcanion
- Mesur difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Crynhoi strategaethau rheoli risg Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyniad am fwy o strategaethau lliniaru risg.

Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad chwarterol o'r gofrestr, gan edrych ar hanner cyntaf yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio, risgiau G.1 i G.7. Roedd yr Is-Grŵp hefyd wedi adolygu Risg G.12 a G.15.

Dywedwyd wrth yr aelodau y bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch2 2024 a bydd yn canolbwyntio ar weddill y risgiau o fewn yr adran Risgiau Llywodraethu a Rheoleiddio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r newidiadau i Gofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

## 8. ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor y Polisi Cyfathrebu wedi'i ddiweddarau i'w ystyried.

Nodwyd bod y Polisi Cyfathrebu wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ym mis Rhagfyr 2019 a chafodd ei adolygu a'i ddiweddarau ym mis Mawrth 2021 a Mawrth 2022.

Adolygwyd y Matrics Llywodraethu hefyd yn ystod y chwarter hwn. Cymeradwywyd y Matrics yn wreiddiol gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ym mis Rhagfyr 2019 a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r Matrics Llywodraethu yn ystor adolygiad eleni.

Nodwyd y byddai'r Polisi Cyfathrebu yn cael ei ddiweddarau ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Polisi Cyfathrebu, y manylwyd arno yn yr adroddiad.**

## 9. DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR - ADOLYGIAD CH4 2023



[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad a ddarparwyd gan Waystone Management (UK) Limited ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer Chwarter 4, 2023, mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Diweddariadau'r farchnad ;
- Daliannau Cyfredol y Gronfa;
- Y diweddaraŷ ynghylch yr is-gronfeydd;
- Diweddariad ac ymgysylltiad corfforaethol

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariadau ynghylch y canlynol :-

- Diweddariad y farchnad ynghylch cwblhau'r broses o gaffael Link Fund Solutions
- Crynodeb Asedau dan Reolaeth ar 31 Rhagfyr 2023
- Ariannu newidiadau mewn perthynas â'r gronfa Credyd Byd-eang, Cronfa Twf Byd-eang, Cronfa Cyfleoedd y DU, Cronfa Bond Elw Absoliwt ac Opsiynau Arenillion.
- Diweddariadau'r farchnad mewn perthynas â Rwsia / Wcráin a'r Dwyrain Canol
- Diweddariad ac ymgysylltiad corfforaethol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y Diweddariad gan y Gweithredwr.**

## **10. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 31 RHAGFYR 2023**

[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar yr Adroddiadau Perfformiad fel yr oeddent ar 31 Rhagfyr, 2023. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod yr is-gronfeydd a oedd wedi perfformio'n uwch/ tanberfformio eu meincnodau priodol, fel a ganlyn:



- Cyfleoedd Byd-eang - wedi perfformio 1.1% gros / 0.8% net yn well
- Twf Byd-eang - tanberfformiad o 0.9% gros / 1.3% net
- Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy - tanberfformiad o 2.6% gros / 2.8% net
- Marchnadoedd Datblygol - tanberfformiad o 0.3% gros / 0.8% net
- Cyfleoedd y DU - tanberfformiad o 0.3% gros / 0.7% net
- Bond Llywodraeth Fyd-eang - wedi perfformio 1.3% gros / 1.0% net yn well
- Credyd Byd-eang - tanberfformiad o 0.1% gros / 0.3% net

Nododd y Pwyllgor nad oedd y cronfeydd Credyd Aml-asedau a Bond Elw Absoliwt yn cyrraedd eu targedau a bod y Gronfa Credyd Sterling yn rhagori ar ei tharged.

**PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo Adroddiadau Perfformiad yr is-gronfeydd canlynol fel yr oeddent ar 31 Rhagfyr 2023:**

- 10.1. Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang**
- 10.2. Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang**
- 10.3. Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy**
- 10.4. Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol**
- 10.5. Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU**
- 10.6. Cronfa Bond Llywodraeth Byd-eang**
- 10.7. Cronfa Credyd Fyd-eang**
- 10.8. Cronfa Credyd Aml-asedau**
- 10.9. Cronfa Bond Elw Absoliwt**

## **11. DIWEDDARIAD MARCHNADOEDD PREIFAT - SEILWAITH**

[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan GCM Grosvenor am raglenni caeedig a phenagored buddsoddi'r Farchnad Breifat.



Nodwyd bod y rhaglen gaeedig yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau seilwaith amrywiol ar draws prif fuddsoddiadau, buddsoddiadau eilaidd a chyd-fuddsoddiadau yn y DU, Ewrop a Gogledd America. Roedd cyfanswm o £166m wedi'i glustnodi a £77m wedi'i fuddsoddi hyd yma. Y cronfeydd sy'n buddsoddi yn y rhaglen hon yw Clwyd, Dyfed, Gwynedd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Gwent Fwyaf (Torfaen).

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am dri rheolwr penagored:

- IFM – Mae Cronfa Seilwaith Byd-eang IFM yn buddsoddi mewn portffolio amrywiol o asedau seilwaith ar draws y sectorau trafndiaeth, ynni, cyfleustodau a digidol sy'n ceisio darparu refeniw sefydlog yn yr hirdymor. Roedd £221m wedi'i glustnodi heb unrhyw fuddsoddiadau hyd yma.
- CBRE - Mae Cronfa Seilwaith Byd-eang CBRE yn buddsoddi mewn asedau ar draws sectorau digidol, trafndiaeth, trawsnewid ynni, a seilwaith cyfleustodau sydd â nodweddion cynhyrchu arian gyda contract manwl. Roedd £88m wedi'i glustnodi heb unrhyw fuddsoddiadau hyd yma.
- Octopus - Mae Cronfa Octopus Renewable Sky yn buddsoddi'n bennaf mewn asedau adnewyddadwy a thrawsnewid ynni craidd, dan contract ac sy'n cynhyrchu arian ledled y DU, Ewrop, Gogledd America ac Asia a'r Môr Tawel. Roedd £133m wedi'i glustnodi a £67m wedi'i fuddsoddi hyd yma.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y diweddariad ynghylch Marchnadoedd Preifat - Seilwaith, yn cael ei dderbyn.**

## **12. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## **13. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU CH4 2023**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**





[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor yr Adroddiad Ymgysylltu Ch4 2023 (y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr, 2023).

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Ymgysylltu ar gyfer Ch4 2023.**

### **14. ADRODDIADAU BUDDSODDI CYFRIFOL A RISG HINSAWDD**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor yr adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd, ar gyfer Chwarter 4, 2023 (y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023), mewn perthynas â'r cronfeydd canlynol:-

- Credyd y DU
- Credyd Byd-eang
- Bond Llywodraeth Fyd-eang

Rhoddodd yr adroddiad sylw i fetrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a risg hinsawdd a nododd gamau allweddol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru eu trafod.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd.**

### **15. ADRODDIAD ARGYMELL CAFFAEL GWEITHREDWR I PPC**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**



[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ynghylch yr argymhellion o ran caffael Gweithredwr, a fyddai'n cael ei anfon at bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig, yn unol ag Atodlen 2 i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

**PENDERFYNWYD y dylid cytuno ar yr Argymhelliad o ran Caffael Gweithredwr a'i anfon at bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig.**

## **16. ADOLYGIAD BENTHYCA GWARANNAU BYD-EANG HYD AT 31 RHAGFYR 2023**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Norris, C. Weaver, N. Yeowell, M. Lewis, S. Churchman, P. Lewis, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad am yr Adolygiad Benthycy Gwarannau fel yr oedd ar 31 Rhagfyr, 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adolygiad Benthycy Gwarannau fel yr oedd ar 31 Rhagfyr, 2023, fel y nodir yn yr adroddiad.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**

